

**Arolygiad o Bractis
Deintyddol Cyffredinol
(Lle rhoddwyd rhybudd)
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda, **Practis
Deintyddol Brynteg
(Rhydaman)****

27 Mai 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal	8
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	12
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	15
6.	Y Camau Nesaf.....	16
	Atodiad A.....	17

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Brynteg yn Nheras Brynteg, Rhydaman, SA18 3AU yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 27 Mai 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.¹ Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.³ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio

¹ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan>

² <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd manylion canfyddiadau o'r math hwn, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Canolfan Ddeintyddol Brynteg (Rhydaman) yn darparu gwasanaethau i tua 20,000 o gleifion yn ardal Rhydaman yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae Practis Deintyddol Brynteg yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pedwar deintydd, pedair nyrs ddeintyddol, dau dderbynydd, ac un rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deintyddiaeth gyffredinol
- Triniaethau cosmetig
- Estheteg yr wyneb
- Gwynnu dannedd
- Invisalign (Sythu dannedd)
- Mewnblaniadau.

4. Crynodeb

Ystyriodd AGIC sut oedd Practis Deintyddol Brynteg yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

Yn ddiethriad, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y practis ac ar safon y gofal a'r triniaethau. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn groesawgar ac yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt am eu triniaeth. Roedd y gwasanaeth yn gwahodd cleifion i roi adborth er mwyn gwella'r gwasanaethau.

Yn gyffredinol, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi yn unol â'r safonau a'r gofynion perthnasol yn y meysydd a arolygwyd gennym, gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth diogel o ansawdd uchel i gleifion. Canfuom fod safon y cyfleusterau clinigol a'r trefniadau ar gyfer cadw cofnodion yn y practis o safon uchel. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyfarpar radiograffig, cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys, gwaredu gwastraff a dadheintio. Roedd agweddau ar y trefniadau dadebru (hyfforddiant a pholisïau) yr oedd angen eu gwella.

Gwelsom dîm staff ymroddedig a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth da yn eu swyddi. Roedd angen gwella rhai agweddau ar arfarniadau'r staff, a'r trefniadau ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion. Ond ar y cyfan, roedd systemau cadarn ar waith ar gyfer sicrhau bod y gofynion staffio, y trefniadau ar gyfer cwyno, a'r polisïau a'r gweithdrefnau yn cael eu monitro'n barhaus.

Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel, hygyrch a chroesawgar i gleifion dderbyn triniaeth.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Yn ddieithriad, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y practis ac ar safon y gofal a'r triniaethau. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn groesawgar ac yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt am eu triniaeth. Roedd y gwasanaeth yn gwahodd cleifion i roi adborth er mwyn gwella'r gwasanaethau.

Gwnaethom anfon holiaduron cleifion i'r practis, ac roedd 33 o gleifion wedi cwblhau'r rhain cyn ein harolygiad. Roedd y cleifion wedi'u cofrestru yn y practis ers rhwng chwe mis a 20 o flynyddoedd.

Heb eithriad, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron wrthym eu bod yn fodlon ar y driniaeth roeddent wedi'i derbyn yn y practis, a bod y staff wedi estyn croeso iddynt. Dywedodd tuag un rhan o dair o'r cleifion wrthym eu bod wedi profi oedi cyn cael eu gweld gan y deintydd, ond dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion nad oedd hyn yn achosi problem iddynt. Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Rydym yn ffodus iawn i gael practis sy'n wirioneddol ardderchog. Mae'r gwasanaeth a'r sylw heb eu hail"

"...Mae dod i'r deintydd yn gam mawr i mi oherwydd rydw i wastad wedi bod ag ofn dod. Ond does gen i ddim ofn bellach, ac mae hyn o ganlyniad i'r gofal ardderchog a'r esboniad gofalus maen nhw'n ei roi. Diolch i'r holl staff am roi fy ngwên yn ôl i mi"

Ardderchog ym mhob ffordd – cyfeillgar, glân. Mae'n berffaith"

"Practis trefnus iawn. Mae'r holl staff yn gyfeillgar ac yn barod eu cymwynas. Byddwn i'n argymhell eu practis i unrhywun sydd angen deintydd da".

"...mae'r staff wastad yn gwenu ac yn hapus i'ch gweld"

"Mae staff y dderbynfa'n barod iawn eu cymwynas wrth drefnu apwyntiadau"

"... gofal o'r radd flaenaf, bob tro."

Pan wnaethom ofyn i'r cleifion ynghylch gwybodaeth am driniaethau, dywedodd yr holl gleifion fod y tîm deintyddol yn esbonio'r driniaeth roedd ei hangen arnynt yn ddigon manwl. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol o ran gwybodaeth am driniaethau:

“...mae'r deintyddion yn dda iawn am esbonio'r hyn maen nhw'n bwriadu ei wneud”

“...maen nhw wedi gwneud argymhellion sydd o fudd i mi”.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn gwybod sut i fynd at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau arferol. Gwnaethom wirio neges peiriant ateb y practis y tu allan i oriau'r swyddfa, a gwelsom fod gwybodaeth ynglŷn â phwy i gysylltu â nhw y tu allan i oriau wedi'i recordio er mwyn helpu'r cleifion.

Fel arfer roedd y practis ar agor o ddydd Llun i ddydd Mercher rhwng 8.45 a.m. a 5.30 p.m., dydd Iau rhwng 8.45 a.m. a 3.00 p.m. a dydd Gwener 9.00 a.m. a 2.00 p.m. Roedd y practis yn cynnig apwyntiadau rheolaidd ac apwyntiadau brys.

Roedd tuag un rhan o dair o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wedi nodi nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn, pe bai angen. Fodd bynnag, gwelsom fod y weithdrefn gwyno wedi'i harddangos yn glir yn y manau aros ac yn nhafenni gwybodaeth y practis, fel bod y cleifion yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth hon yn hawdd pe bai angen.

Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cyflwyno blwch awgrymiadau yn ddiweddar yn y man aros er mwyn i'r cleifion allu rhoi adborth i'r practis, a'u bod yn bwriadu adolygu hyn yn fisol i wneud gwelliannau parhaus. Roedd y staff hefyd yn cofnodi adborth anffurfiol ac adborth ar lafar gan y cleifion. Gwnaethom awgrymu y gallai'r practis, yn sgil cyflwyno'r blwch awgrymiadau, fanteisio ar y cyfle i ffurfioli ei ddull o adolygu adborth gan gleifion dros amser, ac y gallai ddadansoddi patrymau a thueddiadau ynddo er mwyn gwella'r gwasanaeth.

Roedd cofnodion cleifion a welsom a'r holiaduron a gwblhawyd yn cadarnhau bod y cleifion yn cael eu hysbysu am risgiau, buddiannau a thriniaethau amgen er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu triniaeth. Roedd pob claf hefyd yn derbyn cynllun triniaethau ysgrifenedig.

Roedd amrywiaeth eang o ddeunydd hyrwyddo iechyd ar gael yn y dderbynfa/man aros. Roedd taflenni gwybodaeth y practis ar gael i gleifion ac roeddent yn cynnwys crynodeb o wybodaeth ddefnyddiol am y practis.

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Yn gyffredinol, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi yn unol â'r safonau a'r gofynion perthnasol yn y meysydd a arolygwyd gennym, gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth diogel o ansawdd uchel i gleifion. Canfuom fod safon y cyfleusterau clinigol a'r trefniadau ar gyfer cadw cofnodion yn y practis o safon uchel. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyfarpar radiograffig, cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys, gwaredu gwastraff a dadheintio. Roedd agweddau ar y trefniadau dadebru (hyfforddiant a pholisïau) yr oedd angen eu gwella.

Cyfarpar Radiograffeg/Dogfennau

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (peilydr-X) yn ddiogel. Roedd y dogfennau perthnasol ar gael, gan gynnwys gwiriadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw a phrofion, ac roedd y staff wedi mynychu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio.

Roedd y practis wedi dilyn yr holl weithdrefnau perthnasol ar gyfer hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ei fod yn defnyddio cyfarpar radiograffig a'i fod wedi cynnal archwiliadau sicrwydd ansawdd ar gyfer cyfarpar radiograffig. Roedd hyn yn golygu bod systemau ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n ddiogel, a bod y cyfarpar radiograffig yn cael ei fonitro'n barhaus.

Dadebru a chymorth cyntaf

Gwelsom fod siartiau llif manwl ar waith a oedd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r staff ynglŷn â sut i ymdrin â gwahanol argyfyngau meddygol. Dangosodd trafodaethau gydag aelodau staff eu bod yn wybodus ynglŷn â beth i'w wneud pe bai argyfwng meddygol. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis bolisi dadebru ar waith i amlinellu swyddogaethau a chyfrifoldebau pob aelod o staff (staff newydd neu staff presennol) yn glir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod polisi dadebru ar waith, fel bod swyddogaethau a chyfrifoldebau'r staff yn glir ac wedi eu ffurfioli pe bai argyfwng meddygol.

Un o'r aelodau staff oedd swyddog cymorth cyntaf penodedig y practis, ac roedd wedi cwblhau hyfforddiant priodol. Roedd gan y staff fynediad hefyd at gyfarpar cymorth cyntaf priodol a threfnus pe bai argyfwng meddygol (llewygu).

Ar adeg yr arolygiad roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant dadebru o fewn y flwyddyn ddiwethaf, fel yr argymhellir gan y Cyngor Dadebru (DU), ac eithrio dau aelod o staff. Er bod y rhan fwyaf o'r staff, felly, wedi derbyn hyfforddiant i reoli argyfyngau meddygol, ac yn meddu ar gyfarpar ar gyfer gwneud hynny, golygai hyn nad oedd pob un ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant cyfredol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl aelodau staff yn derbyn hyfforddiant dadebru bob blwyddyn, yn unol â chanllawiau gan y Cyngor Dadebru (DU).

Cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys

Roedd y cyffuriau brys wedi eu storio'n drefnus mewn lleoliad da a oedd yn ddiogel. Roedd system gadarn ar waith i sicrhau bod dyddiadau dod i ben cyffuriau'n cael eu monitro. Roedd y padiau rhagnodiadau hefyd wedi'u cadw'n ddiogel er mwyn atal pobl rhag mynd atynt heb ganiatâd. Roedd system gadarn ar waith ar gyfer ymateb i unrhyw adweithiau niweidiol i gyffuriau, ac i adrodd y digwyddiadau hyn.

Trin, storio a gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus

Gwelsom fod gwastraff yn cael ei reoli, ei gadw a'i waredu yn briodol yn y practis ac roedd contract gwaredu gwastraff clinigol cyfredol ar waith. Roedd polisi a gweithdrefn ar waith ar gyfer trin mercwri'n ddiogel.

Dadheintio offer a chydymffurfiaeth â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (adolygiad 1)

Nid oedd gan y practis ystafell neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol oherwydd diffyg lle. Yn lle hynny, defnyddiodd y staff ran o un o'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol fel man dadheintio, ac roeddent yn defnyddio cynwysyddion seliedig priodol i gario offer o'r ystafelloedd triniaeth deintyddol eraill yn yr adeilad i'r man hwnnw. Gwelsom fod gan y practis gynlluniau a oedd yn amlinellu cynllun arfaethedig i ddatblygu ystafell ddadheintio neilltuedig yn y dyfodol, ac y byddai hyn yn cydymffurfio â'r arferion gorau.

Roedd sinciau penodol ar gael ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth deintyddol ar gyfer golchi dwylo, ac roedd cyfarpar diogelu personol priodol ar gael i'r staff (megis sbectol diogelwch/fisorau, ffedogau a menig). Cafodd yr holl offer eu pacio ar ôl cael eu sterileiddio a'u dyddio â dyddiad prosesu, er mwyn sicrhau bod y staff yn deall yn glir beth oedd y dyddiad olaf y gellid defnyddio'r offer hynny. Roedd yr holl offer a wiriwyd o fewn eu dyddiad, ac roedd system fewnol

ar waith i wirio hyn, gydag amserlenni addas wedi eu nodi. Golygai hyn fod prosesau priodol ar waith i amddiffyn cleifion rhag croes-heintio.

Gwelsom fod pob aelod o staff sy'n cyflawni gweithdrefnau dadheintio wedi derbyn hyfforddiant priodol i ddangos cymhwysedd yn eu dyletswyddau.

Gwelsom fod y llyfrau cofnodi a ddefnyddir i gofnodi profion/gweithdrefnau ar gyfer glanhau offer yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau safonol oedd yn cael eu cynnal ar ddechrau a diwedd bob dydd.

Gwelsom fod y practis wedi cynnal archwiliadau rheolaidd o'i ofynion rheoli heintiau, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Golygai hyn fod systemau ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â gofynion rheoli heintiau, ac i sicrhau bod cyfarpar yn ddigon glân a diogel i'w ddefnyddio gyda chleifion.

Cyfleusterau clinigol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth, a chanfod eu bod yn lân, yn daclus ac yn drefnus, a'u bod yn cynnwys yr holl offer perthnasol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r staff.

Roedd digon o offer a chyfarpar deintyddol, ac roedd popeth wedi'i storio'n ddiogel ac i'w gweld mewn cyflwr da. Gwelsom fod digon o eitemau ac offer diogelu untro ar gael i'r cleifion a'r staff.

Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y cywasgydd (dyfais sy'n rhoi cyflenwad o aer glân i bweru offer llaw deintyddol ac amryw offer deintyddol eraill) wedi'i gynnal a'i gadw a'i archwilio yn unol â'r gofynion. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal i wirio bod y dyfeisiadau trydanol bach a ddefnyddir yn y practis yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Ar y cyfan, canfuom fod y cyfleusterau clinigol o safon uchel.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o gofnodion cleifion. Yn gyffredinol, roedd safon cofnodion y cleifion yn y practis yn dda, ac roedd y gofal a'r triniaethau a ddarparwyd i'r cleifion wedi eu cofnodi'n drwyadl ac yn fanwl, ac wedi gwella dros amser.

Canfuom fod hanesion meddygol cleifion yn cael eu diweddarau ym mhob ymweliad er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau'n cael eu cofnodi, ac er

mwyn ymateb iddynt. Gwnaethom awgrymu y gallai'r deintydd gydlofnodi hanesion meddygol, yn unol ag arferion gorau.

Gwelsom nad oedd hanesion meddygol cleifion yn cael eu cofnodi a'u diweddarau'n gyson yng nghofnodion y cleifion. Gwnaethom awgrymu y dylai hyn gael ei roi ar waith, yn unol ag arferion gorau. Fodd bynnag, gwelsom fod y deintyddion yn ystyried anghenion cymdeithasol y cleifion ac yn rhoi cyngor iddynt, megis ynghylch rhoi'r gorau i ysmegu, pan oedd hyn yn briodol.

Canfuom fod y deintyddion yn casglu ac yn cofnodi cydsyniad y cleifion i dderbyn triniaeth. Canfuom hefyd fod y deintyddion yn cofnodi cynlluniau triniaeth ac opsiynau triniaeth yn gyson.

Er i ni weld rhywfaint o anghysondeb o ran cofnodi'r cyfiawnhad dros wneud sganiau pelydr-X a chyfnodau ail-alw (pa mor aml y mae'n rhaid i glaf ddychwelyd am archwiliad) ymhlith y clinigwyr ac ymysg y cofnodion, gwelsom fod hyn wedi gwella dros amser.

Yn gyffredinol, fe'n sicrhawyd bod ymrwymiad i gadw cofnodion o safon uchel yn y practis.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwelsom dîm staff ymroddedig a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth da yn eu swyddi. Roedd angen gwella rhai agweddau ar arfarniadau'r staff, a'r trefniadau ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion. Ond ar y cyfan, roedd systemau cadarn ar waith ar gyfer sicrhau bod y gofynion staffio, y trefniadau ar gyfer cwyno, a'r polisiau a'r gweithdrefnau yn cael eu monitro'n barhaus.

Staff

Roedd y prif ddeintyddion wedi cymryd awenau'r practis ym 1997. Roedd tua 70% o'r gwasanaethau a ddarperid yn y practis yn wasanaethau preifat, a thua 30% ohonynt yn wasanaethau GIG. Roedd rheolwr practis yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig, yn ymroddedig ac yn canolbwyntio ar y cleifion, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth da.

Roedd pob deintydd wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac roedd ganddynt gontractau cyflogaeth. Roedd gan yr holl ddeintyddion dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd â dyddiad o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Gwelsom fod dystysgrifau ar gyfer pob un o'r deintyddion yn cadarnhau eu cofrestriad gydag AGIC wedi'u harddangos yn y practis, fel sy'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Gwelsom gofnodion imiwedd hepatitis B ar gyfer pob aelod o staff clinigol, ac roedd gan bob un ohonynt yswiriant indemniad ar gyfer eu gwaith clinigol.

Gwelsom dystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus oedd wedi'i gwblhau gan y staff clinigol. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael cyfleoedd hyfforddi oedd yn berthnasol i'w swyddi. Gwelsom ffeil gynefino yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a oedd yn cael ei defnyddio i gynorthwyo staff newydd wrth iddynt ddechrau eu swydd.

Gwelsom gofnodion o'r cyfarfodydd tîm, a dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Gwelsom fod amrywiaeth o bynciau perthnasol yn cael eu trafod, a bod aelodau o'r tîm yn cyflwyno eu pryderon a'u testunau eu hunain i'w trafod. Gwelsom enghreifftiau lle'r oedd rhai arferion wedi newid o ganlyniad i drafodaethau mewn cyfarfodydd tîm. Golygai hyn fod gan y tîm le mwy ffurfiol i drafod pryderon, a'u bod yn dysgu o ganlyniad i hyn, er mwyn gwella'u harferion.

Er ei fod yn glir bod trafodaethau anffurfiol yn digwydd, dywedodd y staff wrthym nad oeddent yn cael arfarniadau ffurfiol. Mae arfarniadau'n ffordd bwysig o roi cymorth ffurfiol i staff er mwyn ystyried eu gwaith ac i nodi unrhyw anghenion cymorth ac unrhyw anghenion o ran datblygiad proffesiynol. Dywedodd rheolwr y practis ei fod yn bwriadu ailddechrau gwneud arfarniadau yn y dyfodol agos.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod y staff yn cael arfarniadau rheolaidd.

Amddiffyn Plant ac Oedolion

Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ynglŷn ag amddiffyn plant, a gwnaethom awgrymu y gallai'r staff adnewyddu hwn gan fod hyfforddiant rhai ohonynt yn dyddio yn ôl i 2007. Roedd polisi amddiffyn plant ar waith, er nad oedd hwn yn cynnwys manylion cyswllt lleol ar gyfer gwneud atgyfeiriadau.

Gwelsom nad oedd y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar gyfer amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Roedd polisi ar waith a gwnaethom awgrymu y gellid ychwanegu mwy o fanylder ynglŷn ag arwyddion cam-drin, ynghyd â manylion cyswllt lleol, pe bai'r staff angen gwneud atgyfeiriad. Roedd lleoedd wedi eu harchebu ar gyrsiau hyfforddiant amddiffyn oedolion agored i niwed, a phenodwyd arweinydd amddiffyn oedolion agored i niwed yn y practis yn y cyfamser, er mwyn sicrhau y gellid ymdrin ag unrhyw faterion mewn ffordd briodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff wedi derbyn digon o hyfforddiant ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Dylai polisiâu amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed a pholisiâu amddiffyn plant gynnwys manylion cyswllt lleol er mwyn ei wneud yn haws gwneud atgyfeiriadau.

Cwynion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar y weithdrefn gwyno a gwelsom ei fod yn cydymffurfio â gofynion 'Gweithio i Wella'⁴ y GIG. Roedd gweithdrefn gwyno ar wahân a oedd yn ymdrin â'r trefniadau ar gyfer pryderon/cwynion i gleifion preifat, ac roedd hyn yn cydymffurfio â'r gofynion o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Gwelsom fod cwynion yn cael eu cofnodi'n glir a chyda digon o fanylion am y camau yr oedd y practis wedi eu cymryd i ymdrin â chwynion. Roedd y cwynion yn cael eu dal yn ganolog, ar wahân i gofnodion y cleifion. Roedd sylwadau a phryderon llafar yn cael eu cofnodi hefyd. Roedd rheolwr y practis wedi dechrau cofnodi 'crynodeb dysgu' ar gyfer cwynion, ac roedd hyn yn amlinellu'r canlyniadau a'r hyn a ddysgwyd o ganlyniad i'r materion a nodwyd gan y cleifion, ac roedd hon yn enghraifft o arfer nodedig. Gwnaethom awgrymu y gallai'r practis ffurfioli ei ddull o adolygu'r cwynion yn eu cyfanrwydd dros amser, er mwyn canfod tueddiadau a phatrymau fel ffordd ychwanegol o wella'r gwasanaeth.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gyfforddus yn codi unrhyw bryderon gyda'r rheolwyr ac yn uniongyrchol gyda'r deintyddion. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith, a gallai'r staff ei ddefnyddio i nodi ac i uwchgyfeirio pryderon yn ffurfiol.

Polisiâu a gweithdrefnau

Yn gyffredinol, gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol, a bod y rhain yn lleol ac yn cael eu defnyddio'n uniongyrchol yn amgylchedd y practis. Roedd tystysgrifau a chofnodion ar waith ar gyfer gwaith gynnal a chadw hefyd. Roedd polisiâu a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn sicrhau bod y staff yn gweithio gyda'r wybodaeth fwyaf cyfredol.

⁴ Nod **Gweithio i Wella** oedd ei gwneud hi'n haws i gleifion a gofalwyr godi pryderon.

Cyflwynodd ddull unigol a mwy cyfannol, gan ddod â'r broses o reoli cwynion, digwyddiadau a honiadau at ei gilydd, yn seiliedig ar yr egwyddor 'archwiliwch unwaith, archwiliwch yn dda'.

Ansawdd yr Amgylchedd

Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel, hygyrch a chroesawgar i gleifion dderbyn triniaeth.

Roedd y practis wedi'i leoli yn ardal Rhydaman yn Sir Gaerfyrddin. Roedd y practis wedi'i leoli ar y llawr daear, ac roedd pedair ystafell driniaeth ynddo. Roedd digonedd o le i barcio am ddim ar y stryd gerllaw.

Roedd llawr daear y practis yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn, ac roedd toiled i'r cleifion a oedd yn gwbl hygyrch.

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n foddhaol, y tu mewn a'r tu allan. Yn fewnol, roedd yr amgylchedd yn ddigon golau, cynnes, glân a thaclus ac roedd digon o awyr iach.

Roedd gwybodaeth ddefnyddiol i'r cleifion wedi'i harddangos y tu allan a'r tu mewn. Roedd arwydd y tu allan i'r practis gydag enwau a chymwysterau'r holl ddeintyddion, yn ogystal â'r amseroedd agor a'r rhif cyswllt y gallai'r cleifion ei ffonio mewn argyfwng. Roedd rhestrau prisiau i gleifion y GIG a chleifion preifat wedi'u harddangos yn eglur yn y dderbynfa.

Roedd toiled ar wahân a chyfleusterau newid i'r staff. Roedd y toiledau i'w gweld yn lân ac roeddent yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo addas er mwyn atal croes-heintio.

Roedd maint y man aros yn addas ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth. Roedd gan staff y dderbynfa ddealltwriaeth dda o sut i gynnal cyfrinachedd cleifion. Roedd yr ystafell aros yn cynnwys deunydd darllen ac amrywiaeth eang o gyngor a phosteri a thafleuni hyrwyddo iechyd. Roedd hefyd sgrin deledu a oedd yn hyrwyddo gwasanaethau.

Roedd arwydd ar gyfer yr allanfa dân, ac roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu harchwilio'n ddiweddar. Roedd mesurau diogelwch priodol ar waith er mwyn rhwystro mynediad heb awdurdod i'r adeilad.

Roedd cofnodion papur y cleifion wedi eu storio'n ddiogel dan glo, ac roedd copi wrth gefn o'r cofnodion electronig yn cael ei wneud bob dydd. Golygai hyn fod y practis yn cymryd rhagofalon priodol i ddiogelu gwybodaeth am y cleifion.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â'r canfyddiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Practis Deintyddol Brynteg, Rhydaman, yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Practis Deintyddol Brynteg, Rhydaman

Dyddiad yr arolygiad: 27 Mai 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Profiad y claf			
	Dim byd wedi'i nodi			
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal			
8	Dylai'r practis sicrhau bod polisi dadebru ar waith, fel bod swyddogaethau a chyfrifoldebau'r staff yn glir ac wedi eu ffurfioli pe bai argyfwng meddygol. [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6]	Mae hwn bellach wedi'i gwblhau ac wedi'i arddangos, ac mae'r holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.	Cathy Jones	Cwblhawyd
9	Dylai'r practis sicrhau bod yr holl aelodau staff yn derbyn hyfforddiant dadebru bob blwyddyn, yn unol â chanllawiau gan y	Mae'r ddau aelod o staff a oedd yn absennol o'r hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd yn 2015 wedi archebu lle yng nghanen Brynmanan ym	Cathy Jones	Awst 2014

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Cyngor Dadebru (DU). [Safonau Iechyd a Gofal 7.1; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.2.6. a 6.6.6; Cyngor Dadebru y DU]	mis Awst 2015.		
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
12	Dylai'r practis sicrhau bod y staff yn cael arfarniadau rheolaidd. [Safonau Iechyd a Gofal 7.1; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6.1]	Mae'r holl staff bellach wedi cael arfarniad diweddar.	Cathy Jones	Cwblhawyd
12	Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff wedi derbyn digon o hyfforddiant ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Dylai polisïau amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed a pholisïau amddiffyn plant gynnwys manylion cyswllt lleol er mwyn ei wneud yn haws gwneud atgyfeiriadau. [Safonau Iechyd a Gofal 2.7; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 8.5]	Mae cyfeiriadau lleol ar gyfer amddiffyn oedolion agored i niwed ac amddiffyn plant wedi cael eu hychwanegu at y polisïau, ac mae lle wedi'i archebu ar gyfer pob aelod o staff ar y cwrs hyfforddiant oedolion agored i niwed ym mis Medi 2015, oherwydd rydym wedi bod ar restr wrth gefn ers mis Ionawr 2015	Cathy Jones	Cwblhawyd
Ansawdd yr Amgylchedd				
	Dim byd wedi'i nodi			

Cynrychiolydd y practis:

Enw (llythrennau bras): Cathy Jones

Teitl: **Rheolwr y Practis**

Dyddiad: **26/6/2015**.....